

Gwasanaethau Myfyrwyr

Gwybodaeth i
Fyfyrwyr Israddedig



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

**MEDDWL
GADAEL?**

**MEDDYLIWCH
ETO!**

Gwybodaeth i Fyfyrwyr Israddedig am:-

- Trosglwyddo o Brifysgol Bangor i rywle arall
- Newid cyrsiau o fewn Prifysgol Bangor
- Atal/Gohirio eich astudiaethau Dros Dro
- Gadael y Brifysgol yn Barhaol
- Ail wneud eich astudiaeth

www.bangor.ac.uk/gwasanaethaumyfyrwyr

Bob blwyddyn, bydd nifer o fyfyrwyr yn cydnabod eu bod ar y cwrs anghywir, yn y Brifysgol anghywir neu, yn fwy sylfaenol fyth, nad ydynt yn dymuno bod mewn Prifysgol a gwbl, a hynny er gwaetha'r ymchwil a wnaethant cyn dod i Brifysgol Bangor.

Gall hyn fod yn gyfnod anodd i fyfyrwyr ac i'w teuluoedd a ffrindiau, a gall eich dyfodol ymddangos yn ansicr iawn.

Fodd bynnag, mae'n bwysig eich bod cymryd eich amser i addasu i'ch amgylchedd newydd, er gwaetha'r posibilrwydd fod hiraeth arnoch. Mae angen bod yn ddewr i wynebu'r ffeithiau hyn, and gellwch fod yn sicr fod gan Brifysgol Bangor nifer o ffynonellau o gefnogaeth a all fod yn gymorth i'ch arwain trwy'r cyfnod hwn.

ADNABOD Y BROBLEM

Yn gyntaf, dylech gymryd amser i fynd i wraidd y broblem. A yw'n ymwneud a:-

- Cynnwys academiaidd / arddull y cwrs o'ch dewis
- Prifysgol Bangor ei hun
- Problemau personal (anawsterau teuluol / cyllidol)

Efallai y gallech ddatrys y rhain trwy siarad a'ch tiwtor personal, aelod priodol o'r Ysgol academiaidd neu tim Cefnogi Myfyrwy.

Os na fydd hyn yn datrys y sefyllfa, ac os yw'r broblem yn fwy sylfaenol, efallai y bydd angen ichi roi mwy o ystyriaeth i'ch dewisiadau:

- Aros lle rydych
- Newid cwrs / trosglwyddo i Brifysgol wahanol
- Ymadael ag Addysg Uwch yn gyfan gwbl

SUT YR AF ATI I NEWID FY NGHWRS O FEWN PRIFYSGOL BANGOR?

Yn gyntaf, bydd angen ichi gysylltu â'r Ysgol yr ydych yn dymuno newid iddi, i weld a oes na le ar y cwrs, ac a fyddai'r Ysgol yn barod i'ch derbyn.

Ar ôl gwneud hyn, bydd angen ichi lenwi Ffurflen Newid Gradd sydd ar gael o swyddfa weinyddol yn eich Ysgol, o'r Swyddfa Cofnodion Myfyrwyr, Llawr 1af, Cofrestrfa Academiaidd, Ffordd y Coleg, Bangor, neu ar gael i lawr lwytho oddi ar ein safle we

<http://www.bangor.ac.uk/ar/main/publications/forms.php.cy?>

Mae angen i'r Ysgol sy'n eich rhyddhau a'r Ysgol sy'n eich derbyn llofnodi'r ffuflen cyn i chi ddychwelyd hi i Swyddfa Cofnodi Myfyrwyr.

Fel arfer, ni chaniateir newid cwrs unwaith y bydd 4 wythnos o'r semester fynd heibio.

A YW'N RHY HWYR TROSLWYDDO I BRIFYSGOL WAHANOL?

Os dewch i'r casgliad eich bod ar y cwrs anghywir yn y Brifysgol anghywir, ac am drosglwyddo ar unwaith, mae'n bosibl (er yn eithaf straenus) ichi gychwyn mewn Prifysgol arall ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd Mae'n dibynnu i raddau helaeth ar ba mor gyflym da chi gwneud eich penderfyniad ac ar Brifysgol yr ydych am fynd iddi.

Fe'ch cynghorir i drafod y math yma o fater gyda Steph Barbaresi yn y tim Cefnogi Myfyrwyr, a all roi cyngor a sicrhau bod y gweithdrefnau priodol yn cael eu dilyn.

A YW'N RHY HWYR IMI GYMRYD 'BLWYDDYN RYDD'?

Nid yw'n anarferol i fyfyrwyr sydd wedi dod yn syth o'r Ysgol neu Goleg i deimlo dan bwysau i fynd ar eu hunion i Brifysgol, heb gael cyfle i ystyried ei dewis o gwrs neu Brifysgol. Yn nol rhai myfyrwyr, maent yn teimlo fel pe baent ar siwrne addysgol, gyda dim mewnbwn eu hunain i be sy'n digwydd iddynt.

Os felly, efallai yr hoffech gymryd blwyddyn rydd o addysg, fel y cewch amser i ystyried yr hyn yr hoffech ei wneud.

Byddai'n syniad da ichi drafod y materion hynny a'ch tiwtor personol, ac gyda Steph Barbaresi yn y tim Cefnogi Myfyrwyr.

ATAL/GOHIRIO EICH ASTUDIAETHAU

Os oes gennych broblemau o ran iechyd, teulu neu arian, mae modd ichi ohirio eich astudiaethau dros dro. Er nad yw hyn yn hawl awtomatig, mae'r Brifysgol yn ystyried a chydymdeimlad unrhyw gais oddi wrth fyfyrwyr am ohirio eu hastudiaethau, a byddwn yn ymdrechu i roi cyngor priodol iddynt.

Mae gweithdrefnau'r Brifysgol ar gymeradwyo atal/gohirio astudiaethau ar gael ar wefan y Gofrestrfa Academiaidd:

www.bangor.ac.uk/ar/main/regulations/BUProc07-v201101.pdf

Dylid nodi nad yw gohirio astudiaeth yn ffordd o ddal i fyny hefo gwaith sydd heb ei ddarfod, nac yn ffordd o wella marciau.

Mae gohirio astudiaethau yn amodol ar reoliadau Prifysgol Cymru, o ran terfynau amser. Rhaid i fyfyrwyr sydd ar gyrsiau gradd 3 blynedd gwblhau eu hastudiaethau o fewn 5 mlynedd, a'r rhai ar gwrs 4 blynedd o fewn 6 mlynedd.

Ni fydd eich terfyn amser yn cael ei ymestyn yn awtomatig dim ond oherwydd eich bod wedi penderfynu gohirio eich astudiaethau.

SUT I OHIRIO FY ASTUDIAETHAU?

Rydych yn cael eu hannog yn gryf i drafod y mater gyda naill ai eich Tiwtor Personol neu aelod priodol o'r Ysgol. Gallant eich cynghori am unrhyw oblygiadau i ymwneud a'ch cwrs academiaidd.

Rhaid i bob cais gan fyfyrwr i atal eu hastudiaethau yn cael eu cefnogi gan eu Hysgol Academiaidd.

1 .Bydd rhaid i chi wneud apwyntiad i weld Steph Barbaresi yn y Gwasanaethau Myfyrwyr i ohirio eich astudiaethau'n ffurfiol. Mi fydd Steph yn gwirio bod eich cais yn unol â pholisi'r Brifysgol ac egluro sut all gohirio eich astudiaethau effeithio ar eich cwrs, cyllid, llety ac ati.

2 . Bydd rhaid i fyfyrwyr, sy'n dewis atal eu hastudiaeth dros dro oherwydd rhesymau lechyd ddangos tystysgrif feddygol.

3 . Mae'n ofynnol i fyfyrwyr hysbysu eu sefydliad cyllid myfyrwyr eu bod wedi atal eu hastudiaethau dros dro er mwyn osgoi gordaliad o gyllid myfyrwyr .

4 . Fel arfer mae myfyrwyr sy'n gohirio eu hastudiaethau yn dychwelyd i ail gychwyn y semester maent yn gadael . Fodd bynnag, os ydych wedi cwblhau'r semester, mae'n bosibl i chi ailymuno a'ch cwrs ar ddechrau'r semester nesaf yn y flwyddyn academiaidd ganlynol.

Er enghraifft: da chi di wedi cwblhau semester un yn llwyddiannus, byddech yn dychwelyd at eich astudiaethau yn semester dau yn y flwyddyn academiaidd ganlynol. Fodd bynnag, os ydych yn ail - dechrau o semester un , yna bydd unrhyw farciau / gwaith blaenorol yn cael ei fforffedu a byddwch yn dechrau gyda 'llechen lân'

5 . Yn ystod cyfnodau oddi wrth y Brifysgol, ni fydd gwenych hawl i gael mynediad i Lyfrgell neu gyfleusterau TG y Brifysgol .

6 . Yn ystod cyfnodau o atal dros dro efallai y byddwch yn canfod eich bod yn atebol am daliadau Treth y Cyngor.

Bydd myfyrwyr sy'n dewis i ohirio eu hastudiaethau dros dro yn cael eu cyllid myfyrwyr wedi ai atal dros dro hefyd . Efallai y bydd rhaid ad-dalu'r unrhyw grant

cynhaliaeth / Lwfans Dysgu i Rieni / Grant Oedolion Dibynnol neu Grant Gofal plant a allai fod wedi'u gordalu.

Mae bosib i rai myfyrwyr dderbyn eu cyllid myfyrwyr tra i ffwrdd o'r Brifysgol dros dro, os gallant ddangos i'r sefydliad ariannu bydd peidio â thalu yn achosi caledi ariannol i'r myfyriwr . I gael rhagor o wybodaeth gofynnwch Steph neu Wendy Williams yn y Tîm Cymorth Myfyrwyr

GADAEI Y BRIFYSGOL

Os ydych yn ystyried gadael eich astudiaethau, yn gyntaf, byddem yn argymhell eich bod yn siarad â'ch Tiwtor Personol neu aelod o staff priodol yn eich Ysgol am eich pryderon.

Fel arall , gallech gysylltu â Wendy Williams yn y Tîm Cymorth Myfyrwyr i drafod eich opsiynau / pryderon . Bydd Wendy yn ymdrechu i wneud yn si r eich bod yn derbyn yr holl wybodaeth a chynghor bydd angen i chi helpu i wneud penderfyniad. Bwysicach fyth, bydd Wendy yn trafod y goblygiadau o adael eich astudiaethau a sut y bydd y penderfyniad hwn yn effeithio ar eich hawl i gael cyllid i fyfyrwyr, ffioedd llety ac eich astudiaethau yn y dyfodol .

Ni fydd myfyrwyr sy'n dewis gadael eu hastudiaethau yn barhaol hawl i dderbyn: Cyllid myfyrwyr: Bydd unrhyw fenthyciad cynhaliaeth neu grant , Lwfans Dysgu i Rieni, Grant Gofal Plant , Grant Oedolion Dibynnol y gallech fod wedi cael gordaliad yn gael daladwy yn noll i'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr
Ac i aros mewn neuaddau preswyl y Brifysgol

Rhaid i fyfyrwyr roi gwybod Wendy cyn gynted ag y bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud er mwyn lleihau unrhyw ordaliad cyllid myfyrwyr .

Bydd RHAID i fyfyrwyr gwblhau ffurflen Gadael Astudiaethau'n Barhaol gyda Wendy Williams yng Ngwasanaethau Myfyrwyr. Mi fydd y ffurflen hon yn cadarnhau eich diwrnod olaf yn y Brifysgol er mwyn i'r Brifysgol weithio allan eich ffioedd dysgu. Mae hefyd yn rhoi'r holl wybodaeth angenrheidiol fydd y Brifysgol ei hangen i hysbysu aelodau o staff y Brifysgol a'r Cwmni Benthyciad Myfyrwyr o'ch penderfyniad i adael y Brifysgol yn barhaol.

Rhaid i fyfyrwr hefyd roi gwybod eich sefydliad Ariannu Myfyrwyr eich bod wedi gadael eich astudiaethau yn barhaol er mwyn osgoi unrhyw ordaliad o gyllid myfyrwyr.

Bydd methu â chwblhau a ffurfioli gadael eich astudiaethau yn barhaol gyda'r Brifysgol yn arwain at ffioedd o flynyddoedd llawn 'yn cael ei godi.

AIL-WNEUD BLWYDDYN

Efallai y bydd yn ofynnol i fyfyrwyr sydd wedi methu symud ymlaen o un lefel o astudiaeth i'r llall (e.e. Bl.1 – Bl.2) ail-wneud modiwlau y maent wedi'u methu neu, yn wir, y cyfan o'r fiwyddyn astudio.

Cewch wybodaeth am hyn gyda'ch llythyr canlyniadau diwedd blwyddyn.

GOBLYGIADAU AR GYFER TREFNIADDAU ARIANNU MYFYRWYR

Fel rheol mae myfyrwyr israddedig llawn amser yn eu hariannu ar gyfer y cwrs cyfan (3 neu 4 blynedd fel arfer) ac un flwyddyn ychwanegol. Byddai disgwyl i fyfyrwyr ariannu unrhyw flynyddoedd ychwanegol eu hunain, a byddai ganddynt hawl i fenthyciad cynhaliath yn unig yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'n bwysig eich bad yn hollol ymwybodol o'r goblygiadau ariannol sydd ynghlwm wrth ohirio/gadael neu ailadrodd eich cwrs. Gall y materion hyn fod yn gymhleth felly rydym yn eich cyngori i ofyn am gyngor gan StephBarbaresi neu Wendy Williams Gwasanaethau Myfyrwyr cyn gynted ag y gallwch chi a cyn i chi wneud unrhyw benderfyniad cadarn. Gallant eich helpu i gyfrifo eich hawl i gael cyllid fyfyrwyr, gan ystyried astudiaethau blaenorol ac unrhyw amgylchiadau unigol bydd eich mudiad Ariannu Myfyrwyr yn cymryd i ystyriaeth.

MANYLION CYSWLLT TIM CEFNOGI MYFYRWYR

❖ **Stephanie Barbaresi**

Pennaeth Cefnogi Myfyrwyr
Gwasanaethau Myfyrwyr
Llawr 1af Neuadd Rathbone
Ffordd y Coleg
Bangor, LL572D

Ffôn: 01248 382023

E-bost: steph.barbaresi@bangor.ac.uk

❖ **Wendy Williams**

Cynghorwr Myfyrwyr
Gwasanaethau Myfyrwyr
Llawr 1af Neuadd Rathbone
Ffordd y Coleg
Bangor, LL572D

Ffôn: 01248 383637

E-bost: cymorthariannol@bangor.ac.uk

**Mae'r tîm Cefnogi Myfyrwyr ar gael yn ystod yr wythnos gwaith i chi
alw i mewn heb apwyntiad.**

**Os hoffwch wneud apwyntiad i weld naill ai Steph neu Wendy drwy
gysylltu â
Gwenda Blackmore: 01248 383566**

FFYNONELLAU CYMORTH A CHYNGOR

❖ **Cynghorwr Anabledd**

Gwasanaethau Myfyrwyr
Llawr 1af Neuadd Rathbone
Ffordd y Coleg, Bangor, LL572DF

Ffôn: 01248 382032

E-bost: gwasanaethauanabledd@bangor.ac.uk

❖ **Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd**

2ail Lawr Neuadd Rathbone
Ffordd y Coleg, Bangor, LL572DF

Ffôn: 01248 382071

E-bost: gyrfaoedd@bangor.ac.uk

❖ **Gwasanaeth Cynghori Myfyrwyr**

2ail Lawr Neuadd Rathbone
Ffordd y Coleg, Bangor, LL572DF

Ffôn: 01248 388520

E-bost: cynghori@bangor.ac.uk

❖ **Swyddfa Cofnodi Myfyrwyr**

Llawr 1af Prif Adeilad y Celfyddydau
Ffordd y Coleg, Bangor, LL57 2DG

Ffôn: 01248 388484

Safle ymholi:

<http://www.bangor.ac.uk/ar/enquiries/newindex.php.cy?>